

Neil Ayling
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Neil Ayling,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir y Fflint wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r ffordd rydym yn ysgogi gwelliant drwy ddull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- cyfarfodydd â'r uwch-reolwyr ym mis Mehefin a mis Rhagfyr 2019
- gweithgareddau â ffocws yn y gwasanaethau plant ym mis Hydref 2019
- gweithgareddau â ffocws yn y gwasanaethau oedolion ym mis Chwefror 2020
- gweithgarwch ymgysylltu ag oedolion hŷn
- cyfarfod adolygu – gwaith atal a hybu annibyniaeth i oedolion hŷn – mis Tachwedd 2019
- adolygu gwaith sicrwydd ac asesiadau risg – mis Chwefror 2020
- adborth/gwybodaeth a gafwyd
- adolygu gwybodaeth am berfformiad

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Mae'r awdurdod lleol yn cael budd o dîm uwch-reolwyr profiadol. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus a chymwys sy'n cael ei gefnogi yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir. Mae cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref i'r gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion, a dealltwriaeth drylwyr a datblygedig o gryfderau a heriau presennol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r awdurdod lleol wedi wynebu heriau o ran sicrhau lleoliadau priodol sy'n gallu diwallu anghenion rhai pobl ifanc, ac mae'r defnydd o drefniadau anghofrestredig i ofalu am blant yn fater sy'n peri pryder. Fodd bynnag, dangosodd yr awdurdod lleol ei fod yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y plant, a rhoddodd wybod i AGC am ddatblygiadau drwy gydol y broses.

Mae'r uwch-reolwyr yn hyderus wrth ddatblygu ystod o brosiectau newydd, gan ddefnyddio cyllid grant i greu modelau gofal a chymorth newydd i wella canlyniadau i bobl. Un enghraifft yn y gwasanaethau plant yw'r gwaith a wnaed ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol i sicrhau cyllid trawsnewid i greu canolfan asesu a chymorth amlddisgyblaethol i hwyluso'r gwaith o ailuno lleoliadau a chynllunio lleoliadau yn y tymor hir. Ar yr un pryd, mae'r awdurdod lleol wrthi'n ystyried sut i ddatblygu'r sector gofal lleol mewn perthynas â'r gwasanaethau oedolion, ac mae wedi datblygu ei fenter gofal micro yn ddiweddar.

Pobl

Cydnabyddir bod iaith yn ffactor allweddol wrth feithrin cydberthnasau cadarnhaol, ac mae ymrwymiad corfforaethol i'r defnydd o'r Gymraeg ymysg staff yr awdurdod lleol.

Mae pobl yn Sir y Fflint yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau. Clywsom fod y Prosiect Mockingbird a Datblygu wedi ceisio barn pobl ifanc am y syniad, ac wedi gofyn iddynt am yr hyn a oedd yn bwysig i'w gynnwys yn y gwaith datblygu, yn eu barn

nhw. "Dwi'n hoffi'r ffaith bod gofalmwyr maeth eraill sy'n gallu cefnogi a gwrando", oedd yr ymateb a gafwyd gan un person ifanc. O ran datblygu gwasanaethau a dysgu wedi'i wreiddio, defnyddiodd yr un prosiect ddadansoddiad o themâu tarfu i'w helpu i gynllunio'r ffordd y caiff cymorth ei roi i blant a'u gofalmwyr.

O ran y gwasanaethau oedolion, mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn parhau i ymgysylltu â busnesau lleol ac elusennau. Drwy waith ymgysylltu o'r fath, nodwyd cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu gael eu cefnogi i ddechrau gweithio mewn swyddi â thâl, yn ogystal â lleoliadau gwirfoddol newydd.

Mae mwy o bobl yn rheoli eu gofal eu hunain drwy'r cyfleuster taliadau uniongyrchol, sy'n rhoi mwy o reolaeth a hyblygrwydd i'r unigolyn o ran y gofal y mae'n ei gael. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ystyried ffyrdd creadigol ac arloesol o ddefnyddio taliadau uniongyrchol ac, yn ystod ein gweithgaredd â ffocws, clywsom am grwpiau'n cael taliadau uniongyrchol i wella annibyniaeth pobl a/neu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol.

Roeddem yn cwrdd â staff proffesiynol ymrwymedig ac ymroddedig yn gyson. Roedd trafodaethau â'r staff, arsylwadau a wnaed a chofnodion achos yn dangos bod y staff yn deall egwyddorion Deddf 2014, a'u bod yn effro i'r angen i sicrhau y caiff yr egwyddorion hyn eu rhoi ar waith. Dywedodd yr ymarferwyr a'r rheolwyr wrthym eu bod yn hapus ac yn fodlon yn gweithio yng Nghyngor Sir y Fflint.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Mae'r uwch-reolwyr yn gwybod bod cael gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn allweddol o ran lliniaru'r angen am wasanaethau statudol.

Yn y gwasanaethau plant, ceir ffocws cryf ar help a chymorth cynnar er mwyn meithrin gwydnwch a helpu i sicrhau na fydd problemau teuluoedd yn gwaethygu. Gwnaethom ymweld â'r ganolfan cymorth cynnar amlasiantaethol, a gwelsom bwyslais ar helpu rhieni i ddatblygu eu galluoedd eu hunain, eu dulliau ymdopi a'u cryfderau er mwyn nodi problemau a'u rheoli. Gwelsom deuluoedd yn cael eu cefnogi drwy atebion cymunedol, a ffocws ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a sefydlog.

Yn y gwasanaethau oedolion, ceir ffocws ar feithrin a hybu cryfderau a gwydnwch pobl, yn unol ag egwyddorion Deddf 2014. Yn ystod y gweithgaredd â ffocws, gwelsom enghreifftiau a oedd yn galluogi pobl i gynnal a meithrin sgiliau, gan ddatblygu mwy o annibyniaeth a chymryd mwy o gyfrifoldeb. Mae unigolion yn cael y cyfle i gymryd risgiau yn ddiogel, a defnyddir technoleg gynorthwyol yn effeithiol i gefnogi mwyfwy o ryddid ac annibyniaeth.

Gwelsom ffocws ar alluogi unigolion i feithrin a chynnal cydberthnasau cymdeithasol a chymryd rhan yn eu cymuned. Gwnaethom gwrdd ag aelodau o'r grŵp 'Dungeons and Dragons', a sefydlwyd i helpu pobl sy'n gwella o salwch meddwl. Clywsom sut oedd y grŵp

yn eu helpu i wella, gan roi cyfle iddynt wneud ffrindiau, meithrin diddordebau a chael rheswm i ryngweithio â phobl eraill.

Ym mis Mehefin 2019, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cenedlaethol ar y gwaith a wnaethom mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, ac rydym yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn. Byddwn yn monitro datblygiad strategaeth gomisiynu a sefyllfa'r farchnad mawr ei hangen er mwyn mapio galw am wasanaethau yn y dyfodol ac i helpu i lywio'r farchnad.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi bod mewn gofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad.

Yng Nghyngor Sir y Fflint, mae gweithdrefnau ar waith i ymateb yn effeithiol pan fydd lleoliadau yn methu, a phan fydd heriau cynyddol mewn lleoliadau ac arwyddion ei bod yn debygol y bydd tarfu arnynt. Mae llais y plentyn yn parhau'n ganolog drwy gydol y broses. Caiff argymhellion eu llunio yn y cyfarfodydd cyn tarfu a'u rhannu â'r maes gwasanaeth sy'n gyfrifol am y plentyn er mwyn sicrhau eu bod yn llywio arferion yn y dyfodol.

Partneriaethau

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gymryd rhan weithredol yn y broses o weithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae'n gartref i Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru, ac mae'n rhedeg Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwybodol o fregusrwydd y sector gofal cartref, ac mae'n ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer mynd i'r afael â chapasiti'r farchnad. Mae'n cydnabod pa mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth â darparwyr, ac mae wedi ehangu ei Raglenni Cynnydd i Ddarparwyr ar gyfer Cartrefi Gofal i gynnwys y sector gofal cartref hefyd. Mae'n cydnabod bod recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn her sylweddol sy'n wynebu pob darparwr gofal cartref. Er mwyn ceisio lleihau'r trosiant o weithwyr gofal, mae Cyngor Sir y Fflint wedi dysgu oddi wrth eraill ac wedi mabwysiadu dull arloesol o recriwtio, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn cadw cynifer o weithwyr â phosibl drwy ddefnyddio dulliau mwy gofalus i recriwtio'r bobl iawn â'r gwerthoedd iawn. Soniodd darparwyr gofal wrthym am eu cydberthynas waith gadarnhaol â'r ymarferwyr a'r rheolwyr. Mae'n sicr y bydd y ffocws ar weithio mewn partneriaeth a chefnogi darparwyr drwy fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff gofal yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl.

Un enghraifft o'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus yw Chwilio am Brosiect, sef prosiect ar y cyd ag Hft, Grŵp Tai Pennaf, Coleg Cambria ac eraill i sefydlu rhaglen cymorth cyflogaeth i bobl ifanc ag anabledd dysgu. Yn ystod y gweithgaredd â ffocws, gwnaethom gwrdd â rhai o'r bobl ifanc a'r rhieni, a chlywsom fod Hft wrthi'n datblygu partneriaethau pellach â sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat

a'r sector gwirfoddol i greu cyfleoedd gwaith, addysg a hamdden newydd i bobl ag anabledd dysgu.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer adolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Swyddfa Archwilio Cymru
AGIC
Estyn